# PAPURAU BUSNES

## 28 Tachwedd 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadl yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 21 Tachwedd 2000

**NDM473 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a Rheol Sefydlog 26:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2000;
ii. yn cymeradwyo'r diwygiadau a ganlyn i'r Rheolau Sefydlog;

iii. yn penderfynu y bydd effaith i'r diwygiadau ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 6.3**

**1. Dileu'r paragraffau presennol 6.3 (ii)**

**2. Mewnosod paragraffau newydd 6.3 (ii) a (iii) fel a ganlyn:**

(ii) i Ysgrifennydd y Cynulliad ac iddo gyfrifoldeb arbennig dros gyllid ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb hwn i'w hateb yn llafar o leiaf unwaith, ac am 15 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad y cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

(iii) i unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad (gan gynnwys os yw'n briodol y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd y Cynulliad ac iddo gyfrifoldeb arbennig dros gyllid) y rhoddwyd maes o gyfrifoldeb iddo o dan A.56(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r maes hwnnw o leiaf unwaith, ac am 15 munud o leiaf, bob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cyfarfod mewn cyfarfodydd llawn;

**3. Ailrifo'r paragraffau sy'n weddill yn 6.3.**

**NDM474 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn cymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.23A y gorchymyn drafft a ganlyn:

- Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2000; A

(b) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r gorchymyn drafft hwn ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Tachwedd 2000.

**NDM475 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn cymeradwyo 'Better Homes for People in Wales' y ddogfen ymgynghorol ar Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru.
- Yn croesawu cyfraniad pwysig y ddogfen ymgynghorol hon at ddatblygu polisïau tai fydd yn gwella safonau byw pobl Cymru ac yn gwireddu amcanion GwellCymru.com.
- Yn cydnabod rôl cynrychiolwyr tenantiaid, yr asiantaethau tai a phobl broffesiynol yn y broses o ddatblygu'r strategaeth newydd hon.
- Yn cefnogi'r polisïau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan gynnwys y Strategaeth Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, sefydlu Comisiwn y Digartref, ymestyn y categorïau o bobl ddigartref y dyfarnwyd bod angen blaenoriaethu eu hanghenion ac ymestyn cwmpas gwasanaethau Gofal a Thrwsio i gynnwys Cymru gyfan.
- Yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer tai yn y gyllideb ddrafft, sy'n gwrthdroi tueddiad y degawd diwethaf i leihau gwariant.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau lunio Strategaeth Dai Genedlaethol, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd 2000**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM475**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Yn llinell 1 pwynt bwled 1, dileu 'cymeradwyo' a rhoi 'nodi' yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 2

' ac yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynulliad o ran Cyfle Cyfartal a Datblygu Cynaliadwy'

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled 5 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny

'Yn sicrhau nad yw trwyddedu gorfodol eiddo ar rent yn cael ei gyfyngu i dai amlddeiladaeth risg uchel.

Yn cydnabod rôl hollbwysig y Cynulliad Cenedlaethol wrth bennu lefel rhenti Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai ac y bydd 'rhent fforddadwy' yn cael ei gysylltu â chyfartaledd cyflogau ac isafswm cyflogau. '

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt bwled 5, dileu popeth ar ôl 'gyllideb ddrafft' ac ychwanegu ' tra'n cydnabod y cafwyd diffyg cronig o ran buddsoddiad arian cyhoeddus mewn lwfansau atgyweirio tai.'

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled 6 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny

'yn sicrhau y bydd darpariaeth tai'r dyfodol yn cael ei chysylltu ag angen gwirioneddol trwy sefydlu, gydag awdurdodau lleol, Archwiliad Cenedlaethol o Anghenion Tai.'

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ar ddiwedd y pwynt bwled 6 gwreiddiol, dileu 'i'r Cynulliad Cenedlaethol' ac ychwanegu 'o fewn 6 mis i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd

'Yn galw ar y Prif Weinidog i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â'r angen i symleiddio budd-daliadau tai gan gynnwys cydraddoldeb triniaeth i'r rhai dan 25; dileu Grantiau Mynediad o'r dull cyfrif Budd-dâl Tai; a chynnal adolygiad brys o'r nenfwd ar gyfer Budd-daliadau Tai.'

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd

'Yn cyfuno Rhaglenni Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, Pobl mewn Cymunedau a Chymunedau Cynaliadwy i un ymarfer cyffredinol a chynhwysfawr a fydd yn cynnwys sylwadau gan grwpiau cymorth tenantiaid.

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Yn dilyn 'Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol', ychwanegu pwynt bwled newydd:

"Yn cydnabod arwyddocâd buddsoddiad preifat ar gyfer tai yng Nghymru yn y dyfodol, a'r angen i gwmnïau gael eu rhyddhau o reoliadau gormodol o ran datblygu adeiladu"

**10. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Yn dilyn 'y broses o ddatblygu'r strategaeth newydd hon', ychwanegu pwynt bwled newydd:

"Yn argymell fel rhan o'r Strategaeth Dai Genedlaethol, bod digon o arian ar gael i atgyweirio'r holl dai PRC a nodir yng Nghymru"

**11. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Yn dilyn 'Gwasanaethau Gofal a Thrwsio i gynnwys Cymru gyfan', ychwanegu pwynt bwled newydd:

"Yn sicrhau y ceir rheolaeth ddigonol a chyhoeddus o gostau trosglwyddo'r stoc tai o Awdurdodau Lleol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig"